HORIZON
PŴER NIWCLEAR

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

Rheoli Ansawdd A Gwelliannau Parhaus Polisi

Rhif y Ddogfen: HG-M-01-POL-01-328

Diwygiad: 9.0

DIM MARC DIOGELU

Tabl Cymeradwyo

	Rôl yn Horizon	Enw wedi'i brintio	Enw wedi'i lofnodi	Dyddiad
Awdur	Pennaeth Sicrwydd Ansawdd a Systemau Rheoli	Paul Marsden		
Dilyswyd gan	Cyfarwyddwr Trwyddedu a Diogelwch	Anthony Webb		
Adolygwyd gan	Cyfarwyddwr Effeithiolrwydd Gweithredol	Colin Ellam		
Cymeradwywyd gan	Prif Swyddog Gweithredol	Duncan Hawthorne		

Hanes Adolygu

Dyddiad	Rhif Adol.	Crynodeb o'r Newidiadau	Cyfeirnod Adran	Pwrpas Cyhoeddi
	1.0	Argraffiad Cyntaf		
Hydref 2011	2.0	Adolygu'r polisi Ail-rifo'r ddogfen i adlewyrchu arferion System Reoli Horizon – rhif gwreiddiol: HNP-QM-POL-01	-	Adolygu
Rhagfyr 2012	3.0	Adolygu'r polisi – dim angen gwneud newidiadau i'r cynnwys. Diwygio'r dyddiadau adolygu a dyddiadau dod i rym	-	Adolygu
Rhagfyr 2013	4.0	Adolygu'r polisi – dim angen gwneud newidiadau i'r cynnwys. Diwygio'r dyddiadau adolygu a dyddiadau dod i rym	-	Adolygu
Rhagfyr 2014	5.0	Adolygu'r polisi – dim angen gwneud newidiadau i'r cynnwys. Diwygio'r dyddiadau adolygu a dyddiadau dod i rym	-	Adolygu
Mai 2016	6.0	Adolygu'r polisi er mwyn: sicrhau ein bod yn cyd-fynd â fframwaith y polisi; diweddaru geiriad y datganiad safonol; a gwirio'r fformat.	-	Adolygiad cyfnodol ac ail-gyhoeddi
Tachwedd 2016	7.0	Diwygio'r adran cyfrifoldebau er mwyn adlewyrchu newid perchnogaeth (Swydd) Rheoli Cydymffurfio – Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Systemau Rheoli yn flaenorol HNP-S2-MSH-CRQ-00021 (cyfeirio)	-	Diwygiad
Mawrth 2017	8.0	Atebolrwydd wedi'i neilltuo i'r Cyfarwyddwr Trwyddedu a Diogelwch Diweddaru'r adran cyfrifoldeb HNP-S2-MSH-CRQ-00045 (cyfeirio)	-	Diwygiad
Ionawr 2018	9.0	Wedi newid yr awdur i'r Pennaeth Sicrwydd Ansawdd a Systemau Rheoli Y cyfeiriad at y safonau ISO ac IAEA wedi'i ddiweddaru Diweddaru'r adran cyfrifoldeb HNP-S2-MSH-CRQ-00150 (cyfeirio)	-	Adolygiad Cyfnodol ac ail-gyhoeddi

Polisi Rheoli Ansawdd a Gwelliannau Parhaus

YR UNIGOLYN ATEBOL AR GYFER Y POLISI HWN YW'R CYFARWYDDWR TRWYDDEDU A DIOGELWCH

Rheswm dros y Polisi hwn

Mae Horizon yn sefydliad ynni yn y Deyrnas Unedig sy'n datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear i helpu i fodloni angen y wlad am gyflenwadau sefydlog a chynaliadwy o ynni carbon isel.

Wrth ymgymryd â'i weithrediadau, mae Horizon yn defnyddio System Reoli Integredig – System Reoli Horizon – sy'n galluogi Horizon i ddatblygu ei raglen pŵer niwclear, a darparu a pharatoi i weithredu gorsafoedd niwclear yn ddiogel mewn ffordd sy'n bodloni holl ofynion rhanddeiliaid Horizon.

Bwriad y polisi hwn yw rhoi egwyddorion ar gyfer datblygu System Reoli Horizon, ei rhoi ar waith, a'i gwella'n barhaus.

Mae'n berthnasol i'r canlynol

Mae cynnwys y polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n gweithio i Horizon ac ar ei ran.[1]

Datganiad Polisi

Byddwn yn sicrhau:

- Bod System Reoli Integredig, sef System Reoli Horizon, yn cael ei sefydlu a'i datblygu
- Bod ein polisïau, ein prosesau a'n gweithdrefnau sy'n ffurfio System Reoli Horizon yn cael eu datblygu o'r top i'r lawr
- Bod ein polisïau, ein prosesau a'n gweithdrefnau yn integreiddio gofynion ISO 9001:2015 ac IAEA GS-Rhan 2 ac arferion gorau diwydiant niwclear y DU, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol eraill
- Bod System Reoli Horizon wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n hybu dull effeithiol ac effeithlon o roi ein polisïau, ein prosesau a'n gweithdrefnau ar waith
- Bod dull graddedig yn cael ei sefydlu ar gyfer System Reoli Horizon er mwyn galluogi'r polisïau, y prosesau a'r gweithdrefnau gofynnol i sicrhau prosesau llywodraethu corfforaethol priodol a rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd y rhaglen niwclear
- Bod ein disgwyliadau o ran System Reoli Horizon yn cael eu rhaeadru drwy'r gadwyn gyflenwi i gyd
- Bod cyfleoedd gwella parhaus ar gyfer System Reoli Horizon yn cael eu hadnabod a'u rhoi ar waith
- Bod perfformiad System Reoli Horizon yn cael ei fesur gyda dangosyddion SMART a bod Adolygiadau Rheoli yn cael eu cynnal yn gyson i fesur ein perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau penodol
- Bod amgylchedd gwaith, systemau, hyfforddiant ac adnoddau angenrheidiol yn cael eu darparu i gyd-fynd â'r amcanion a'r targedau a ddiffiniwyd gennym
- Bod Camau Cywiro yn cael sylw'n systematig drwy'r rhaglen Camau Cywiro, er mwyn gwella gwaith Horizon drwy'r amser
- Bod Rhaglenni Sicrhau Ansawdd perthnasol (gan gynnwys Sicrhau Ansawdd y Gadwyn Gyflenwi) yn cael eu sefydlu
- Bod trefniadau rheoli cydymffurfiad yn cael eu sefydlu a'u rhoi ar waith
- Bod trefniadau rheoli ansawdd ar gyfer rheoli gwybodaeth wedi'u sefydlu ac yn cael eu gweithredu.

[1] Mae Horizon yn cyfeirio at Horizon Nuclear Power Wylfa Limited. Gall cwmnïau eraill sy'n rhan o Grŵp Horizon ddefnyddio System Reoli Horizon. Mewn achos o'r fath, mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff sy'n gweithio i'r cwmnïau hynny ac ar eu rhan, yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio i Horizon ac ar ei ran.

Cyfrifoldebau

Yr unigolion yn y swyddi canlynol sy'n gyfrifol am gyflawni'r prif weithgarwch sy'n berthnasol i'r polisi hwn:

Gweithgarwch	Swydd
Safonau a Pholisi Ansawdd	Pennaeth Sicrwydd Ansawdd a Systemau Rheoli
Systemau Rheoli a Gwelliannau Parhaus	Pennaeth Sicrwydd Ansawdd a Systemau Rheoli
Rheoli'r Rhaglen Camau Cywiro	Pennaeth Asesu Annibynnol, Dysgu a Materion Rheoleiddiol
Rheoli Sicrwydd Ansawdd	Pennaeth Perfformiad Rhaglen a Sicrwydd Ansawdd